



promoting equality in housing  
hybu cydraddoldeb ym maes tai

## Tai Pawb

### Ymateb i: Papur Gwyn ar Derfynu Digartrefedd yng Nghymru

Ionawr 2023

Paratowyd gan: David Rowlands a Ross Thomas

I gael rhagor o wybodaeth am y papur hwn, cysylltwch â:

Enw: David Rowlands  
Swydd: Rheolwr Polisi  
Ebst: [David@taipawb.org](mailto:David@taipawb.org)  
Ffôn: 029 2278 8956



## Pwy ydym ni

Mae Tai Pawb yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Ni yw prif sefydliad cenedlaethol Cymru sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai. Dychmygwn Gymru lle mae gan bawb yr hawl i gartref da. Mae gormod o bobl yng Nghymru heb rywle i fyw mewn diogelwch, heddwch ac urddas: rydym yn benderfynol o newid hynny. Rydym yn cefnogi ac yn gweithio gyda'n haelodau i'w helpu i roi syniadau ar waith tra'n dylanwadu ar lunwyr polisi i wneud polisi tai yn deg. Ni yw'r arweinwyr syniadau ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar gyfer y sector tai a thu hwnt.

Mae Tai Pawb yn gweithredu system aelodaeth sy'n agored i awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, sefydliadau trydydd sector, buddiannau tai eraill ac unigolion.

## Yr hyn a wnawn

Mae Tai Pawb yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill ar strategaethau tai cenedlaethol a gweithgorau allweddol, i sicrhau bod cydraddoldeb yn ystyriaeth gynhenid mewn datblygu a gweithredu strategol cenedlaethol. Mae'r sefydliad hefyd yn darparu cyngor a chymorth ymarferol i'w aelodau ar amrywiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai a gwasanaethau cysylltiedig, gan gynnwys QED – yr achrediad cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y sector tai.

Bydd ein hymateb yn mabwysiadu dealltwriaeth o bob rhan o'n prosiectau a'n hymchwil, gan gynnwys cymorth i ffoaduriaid, ein hymgyrch [Cefnogi'r Mesur](#) ymchwil diweddar ynghylch tai a'n prosiect Sector Rhentu Preifat Gwent sy'n ceisio helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Am ragor o wybodaeth ewch i: [www.taipawb.org](http://www.taipawb.org)

Rhif cofrestru'r elusen: 1110078

Rhif Cwmni: 5282554

## 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae'n argyfwng ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae adlodd Covid-19, costau byw ac argyfyngau ffoaduriaid Wcráin ac Afghanistan yn golygu bod gwasanaethau o dan bwysau parhaus, digynsail. Yn y cyfamser mae chwyddiant wedi gadael darparwyr gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd cynnal lefelau cymorth, gydag ofnau am hyfywedd gwasanaethau yn y dyfodol. Gyda'r niferoedd uchaf erioed mewn Llety Dros Dro a rhestr aros enfawr am dai cymdeithasol, rydym yn profi storm berffaith yng Nghymru. Mae angen diwygio deddfwriaethol. **Yn erbyn y cefndir hwn, rydym yn cefnogi ac yn cymeradwyo natur flaengar ac uchelgeisiol y cynigion hyn.** Os yw digartrefedd i ddod i ben yng Nghymru, dyma'r mathau o gynigion sydd eu hangen.
- 1.2 Mae [ymchwil](#) Tai Pawb wedi helpu i lywio datblygiad y Papur Gwyn hwn, gan amlygu nad oes gan y ddeddfwriaeth bresennol a gwasanaethau bob amser yr hyblygrwydd i ymdrin ag amgylchiadau unigol pobl sy'n profi digartrefedd â nodwedd(ion) gwarchoddedig. Mae ein system ddigartrefedd yn y DU yn cael ei gorgynrychioli gan bobl anabl, goroeswyr cam-drin domestig, ffoaduriaid a phobl sy'n defnyddio sylweddau/alcohol a phroblemau iechyd meddwl. Os ydym am roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru, rhaid i ddeddfwriaeth a gwasanaethau gael eu teilwra ar gyfer anghenion y bobl hyn.
- 1.3 Mae Tai Pawb yn rhan o glymblaid [Cefnogi'r Mesur](#), sy'n ceisio ymgorffori tai fel hawl ddynol yng Nghymru. Fel ymgyrch, rydym wedi ymateb ar wahân i'r ymgynghoriad hwn gan geisio tynnu sylw at y synergedd rhwng y cynigion a gyflwynir yn y Papur Gwyn hwn, a sut y gellid eu cryfhau drwy ymgorffori'r hawl i dai digonol. Teimlwn y byddai'r nodau a geisir gan y Papur Gwyn hwn **yn cael eu cyflawni a'u cynnal yn well** pe byddent yn cyd-fynd â'r hawl i dai digonol.
- 1.4 Mae'r ymateb hwn yn cynnwys dwy adran: yn gyntaf, tynnu sylw at ein cefnogaeth i egwyddorion lefel uchel y diwygiadau arfaethedig. Yn ail, rydym yn archwilio materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y teimlwn y mae angen eu hystyried wrth roi'r ddeddfwriaeth ar waith. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i roi'r newidiadau hyn ar waith a helpu i sicrhau bod gan bawb gartref diogel ac addas.

## 2. Cymeradwyo'r Papur Gwyn

2.1 Mae Tai Pawb yn llwyr gymeradwyo ac yn cefnogi egwyddorion y diwygiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn hwn, yn arbennig:

- Dod ag angen blaenoriaethol i ben
- Newidiadau o gwmpas cysylltiad lleol
- Dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i atgyfeirio a gweithio'n fwy cydweithredol
- Diddymu bwriadoldeb
- Cynlluniau tai personol
- Cynyddu'r cyfnod o risg o ddigartrefedd i 6 mis
- Gwell dulliau o gyfathrebu â phobl
- Gwell dulliau o gefnogi hawliau unigolion i adolygu penderfyniadau er mwyn sicrhau gwneud penderfyniadau teg

2.2 Credwn fod y newidiadau hyn a'r rhai a gynigir yn ehangach yn y Papur Gwyn hwn yn flaengar ac y byddant yn helpu i atal a lleihau digartrefedd yng Nghymru.

2.3 Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo eu bod yn ddigon i **roi terfyn ar ddigartrefedd, yn unol â nod hirdymor Llywodraeth Cymru**. Rydym yn pryderu nad yw'r cynigion hyn yn mynd i'r afael â chyflenwad, yn ysgogi'r buddsoddiad sydd ei angen i gyd-fynd â'u dyheadau nac yn darparu sylfaen gyfreithiol i dai fel hawl ddynol. Mae Tai Pawb yn credu y byddai'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yn cael ei gyflawni orau drwy ategu'r diwygiadau hyn drwy ymgorffori hawl i dai digonol, a fyddai'n cefnogi ac yn gwella'r cynigion deddfwriaethol hyn.

### 3. Goblygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y Papur Gwyn

#### Pobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus

- 3.1 Mae Tai Pawb yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chefnogi pobl sydd heb unrhyw hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF) mewn cyd-destun datganoledig pan fo pwerau yn nwylo San Steffan. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau yn y maes hwn a'n bod yn croesawu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru a'r rhaglen Cenedl Noddfa, gellir a dylid gwneud mwy i gefnogi pobl yn y grŵp hwn. Mae'n anodd i siarad am barhau â "chynnwys pawb" a ninnau'n gwybod bod pobl sy'n byw yng Nghymru wedi'u neilltuo. Yn anffodus, er ein bod yn teimlo bod cynigion y Papur Gwyn yn flaengar yn eu cyfanrwydd, mae'n ymddangos bod diffyg uchelgais ynghylch pobl â statws NRPF.
- 3.2 O dan y ddeddfwriaeth bresennol, er bod amgylchiadau lle gellir cefnogi pobl ag NRPF, yn enwedig lle mae [anghenion croestoriadol](#), yn aml mae anghysondebau neu ormod o amgylchiadau lle na wneir hynny. Yn rhannol, gall hyn fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a hyfforddiant. Rydym yn cefnogi mwy o hyfforddiant ar gyfer gweithwyr rheng flaen fel eu bod yn ymwybodol o amgylchiadau lle gellir cefnogi pobl. Mae fforymau fel [NRPF Network](#) a gynhelir gan Gyngor Islington yn enghraifft o hyn mewn mannau eraill yn y DU. Hoffem hefyd weld mwy o waith ymchwil yn cael ei wneud a data'n cael ei gasglu fel bod awdurdodau lleol a'r Llywodraeth ar bob lefel yn deall y raddfa a'r problemau a wynebir gan bobl ag NRPF yn well. Ar hyn o bryd mae'n amhosibl asesu maint yr NRPF yng Nghymru yn gadarn. Mae [adroddiad](#) Llywodraeth Cymru ar y mater yn amcangyfrif y gallai fod rhwng cant a miloedd o bobl bob blwyddyn yng Nghymru yn wynebu amddifadedd oherwydd amodau NRPF.
- 3.3 Mae rhanddeiliaid hefyd wedi dweud wrthym fod gan Lywodraeth yr Alban ddull blaengar o gefnogi pobl gydag NRPF. O ystyried yr adborth hwn, credwn fod yn rhaid archwilio mwy ar gyfleoedd i ddeall arfer da mewn mannau eraill yn y DU, eu cysylltu â'r cyd-destun Cymreig, a'u cyflwyno yng Nghymru. Er efallai nad yw'r atebion i gefnogi pobl gyda NRPF yn rhai deddfwriaethol, credwn ei bod yn bwysig eu hystyried o fewn y diwygiadau ehangach a gynhwysir yma a fydd yn llywio gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru am y degawd nesaf a thu hwnt.
- 3.4 Mae pobl sy'n ceisio noddfa ac sy'n wynebu amddifadedd yn aml yn cael eu gadael ar ôl gan y ddarpariaeth ddigartrefedd bresennol ac weithiau'n colli'r hawl i lety a ddarperir gan y Swyddfa Gartref am resymau sy'n cynnwys nad yw'r llety'n addas i bobl fyw ynddo, neu am eu bod wedi derbyn penderfyniad lloches negyddol. Mae'r rhai sy'n derbyn penderfyniad negyddol yn cael eu labelu'n NRPF a gyda phob cymorth yn cael ei dynnu'n ôl, mae risg uchel y bydd diffyg cefnogaeth llywodraeth y DU yn eu gwthio i gyni. Dyma lle y gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r

‘anialwch’ cymorth cyfreithiol yng Nghymru i sicrhau bod pobl sy’n wynebu tlodi yn cael mynediad addas at gymorth cyfreithiol i reoleiddio eu statws a symud ymlaen o gymorth i lety cynaliadwy. Rydym yn argymhell ymhellach bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dyletswydd i gyfeirio at gyngor cyfreithiol os yw rhywun yn cael ei fygwth neu’n profi digartrefedd oherwydd statws NRPF. Mewn achosion lle mae gobaith rhesymol y bydd rhywun yn rheoleiddio ei statws (h.y., yn cael cyflogaeth neu’n apelio yn erbyn ei achos lloches) yna bydd cyllid ar gael drwy awdurdodau lleol i gefnogi’r dulliau hyn.

### Ffoaduriaid

- 3.2 Amlygodd ymchwil a wnaed gan Tai Pawb ar gyfer y Papur Gwyn hwn y risg uwch o ddigartrefedd y mae ffoaduriaid yn ei wynebu, yn enwedig pan roddir statws newydd iddynt gael aros. Ar hyn o bryd, dim ond 28 diwrnod a roddir i ffoaduriaid sydd newydd adael llety’r Swyddfa Gartref, tra bod achosion etifeddol a gafodd lety yn ystod y pandemig bellach yn cael cyn lleied â 7 diwrnod o rybudd, gan arwain yn aml at ddigartrefedd. Fel y nodwyd eisoes, rydym yn llwyr gefnogi’r dyletswyddau ar gyrrff cyhoeddus i atgyfeirio pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac estyniad o 56 diwrnod i 6 mis. Gan gydnabod y cyfyngiadau ar Lywodraeth Cymru o ran ei gwneud yn ofynnol i’r Swyddfa Gartref weithredu’r newid hwn, rydym yn cefnogi’r awydd i geisio memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda’r Swyddfa Gartref i roi mwy o rybudd nag sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl adael llety a gefnogir gan y llywodraeth. Dylai sgyrsiau hefyd gynnwys ffocws ar gyflymu prosesau o amgylch cardiau trwydded breswyllo biometrig neu rif YG, oherwydd hebddynt, mae pobl yn cael trafferth dod o hyd i waith a/neu lety.
- 3.3 Bu newidiadau mewn ardaloedd gwasgaru ffoaduriaid, gyda phob awdurdod lleol (ALI) bellach yn delio â ffoaduriaid sydd newydd gael caniatâd. Yn ogystal â’r cyflenwad gofynnol o gartrefi, bydd angen canllawiau ar ALLau ar y ffordd orau o gefnogi ffoaduriaid ac atal digartrefedd. Mae gan ffoaduriaid wahanol rwystrau i ddigartrefedd prif ffrwd. Mae cydweithredu â sefydliadau cymorth i ffoaduriaid y mae’r gymuned ffoaduriaid yn ymddiried ynddynt yn hanfodol er mwyn sicrhau cymorth priodol a chamu ymlaen cynaliadwy. Mae canllawiau Tai Pawb ar sut y gellir gwneud hyn i’w cael [yma](#). Bydd angen integreiddio cynlluniau ar gyfer cefnogi ffoaduriaid hefyd i Gynlluniau Gweithredu Ailgartrefu Cyflym pob awdurdod lleol. Mae gwybodaeth am sut y gellir gwneud hyn wedi’i chynnwys yn ein [papur briffio ystyriaethau cydraddoldeb ar gyfer ailgartrefu cyflym](#). Mae’n gwaith ledled Cymru a’r ddealltwriaeth a gawsom o waith gan NACCOM yn Lloegr yn dangos bod atebion llwyddiannus yn cynnwys cydweithio rhwng awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau cymunedol ffoaduriaid. Byddem yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi polisiâu, camau gweithredu a chyfathrebiadau ar waith i annog cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol i ddarparu mwy o opsiynau tai a rennir ar gyfer ffoaduriaid a

cheiswyr lloches anghenus (gellir cyflawni'r olaf drwy bartneriaethau â sefydliadau ffoaduriaid). Mae enghreifftiau da o atebion o'r fath rhwng Grŵp POBL a The GAP Wales yng Nghasnewydd yn ogystal ag elusen Home 4U a darparwyr tai cymdeithasol yng Nghaerdydd fel y disgrifir yn ein [Briff Arfer Da](#).

### Prawf cysylltiad lleol

- 3.4 Rydym yn croesawu'r hyblygrwydd cynyddol o ran cymhwyso profion cysylltiad lleol, gan gydnabod bod rhai awdurdodau lleol yn gweld y rhain fel arf pwysig wrth reoli galw. Rydym yn cefnogi cynigion i ystyried meini prawf "amgylchiadau arbennig" lle gall grwpiau o bobl sydd mewn mwy o berygl o niwed yn sgil y prawf cysylltiad lleol gael hwn wedi'i ddatgymhwyso gan gynnwys:
- Pobl ifanc 25 oed ac iau
  - Aelodau o'r Gymuned LHDTC+
  - Pobl anabl
  - Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- 3.5 Byddem yn cefnogi cynnwys **ffoaduriaid a chyn-geiswyr lloches** yn y categori hwn. Fel yr amlygwyd gan nifer o ddarnau o ymchwil, gan gynnwys ein rhai ni i lywio'r Papur Gwyn, mae cyfraddau digartrefedd yn uchel ymhlith y cymunedau hyn. Bydd ymestyn "amgylchiadau arbennig" yn cynnig cyfleoedd i bobl fyw mewn cymunedau lle gallai fod seilwaith ffoaduriaid a mudwyr mwy sefydledig, gan roi'r cyfle gorau iddynt ailadeiladu eu bywydau ac osgoi digartrefedd mynych.
- 3.6 Wrth gyflwyno'r polisi hwn, mae angen ystyried hyfforddiant priodol ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn iddynt allu deall amgylchiadau personol pobl yn y ffordd orau. Dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys ffocws ar [wrth-hiliaeth](#) a [rhagfarn ddiarwybod](#).

### Atal

- 3.7 Rydym yn llwyr gefnogi'r cynigion i gynyddu'r dyddiad y mae rhywun mewn perygl o fod yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth i 6 mis. Bydd y mesur hwn yn helpu i atal digartrefedd rhag digwydd.
- 3.8 Er mwyn cefnogi gweithrediad y mesur hwn, mae angen casglu data priodol ar bobl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref ac mewn perygl o fod yn ddigartref. Gall hyn sicrhau bod ariannu, cynllunio a thargedu allgymorth a gwasanaethau priodol i'r bobl gywir yn cael ei weithredu'n effeithiol. Dylid casglu'r data hwn ar lefel leol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu diwallu yn y ffordd orau. Gall ymestyn y cyfnod pan fydd gan bobl hawl i gymorth tra'u bod mewn perygl o fod

yn ddigartref hefyd olygu bod nodweddion y bobl sy'n gofyn am gymorth yn newid, felly mae angen i gynlluniau cyflawni fod yn ymwybodol o hyn.

### Troi allan

- 3.9 Rydym yn cefnogi'r polisiâu y cyfeiriwyd atynt yn y Papur Gwyn, ac sydd eisoes ar waith gan lawer o gymdeithasau tai yng Nghymru, mewn perthynas â dim troi allan o dai cymdeithasol i ddigartrefedd. Gan gydnabod bod amgylchiadau'n codi lle nad yw'r polisi hwn bob amser yn ymarferol, rydym yn argymhell bod data'n cael ei gasglu a'i fonitro, gan gynnwys mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig, i nodi unrhyw batrymau neu duedd wrth wneud penderfyniadau. Dylai hefyd fod angen hyfforddiant priodol ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- 3.10 Mae ein prosiect sector rhentu preifat [Gwent BOOST](#) wedi ymgysylltu â dros 200 o landlordiaid drwy fforymau landlordiaid, digwyddiadau Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl (NRLA) ac allgymorth cymunedol. Mae hyn yn cynnwys pum unigolyn sy'n gysylltiedig â'r prosiect fel Hyrwyddwyr Gwirfoddolwyr sydd wedi'u sefydlu'n llawn. **Mae diffyg dealltwriaeth a hyder eang ar ran landlordiaid wrth gefnogi tenantiaid sydd mewn perygl o ddigartrefedd neu ag anghenion ychwanegol.** Mae sgysiauw wedi nodi angen ac awydd am fecanweithiau gwell i landlordiaid atgyfeirio tenantiaid sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i wasanaeth. Mae'r cynigion ar gyfer y Papur Gwyn hwn yn hepgor darpariaeth o'r math hwn. Yn seiliedig ar yr adborth hwn, rydym yn argymhell yn gryf y dylid cynnwys hyn, o bosibl drwy Rhentu Doeth Cymru, o ystyried y dylai pob landlord gofrestru yno.

### Addasrwydd Llety Dros Dro

- 3.11 Croesawn yr awydd i wella safonau llety dros dro bob tair blynedd, er mwyn symud yn raddol tuag at safonau uwch. Wrth gynnal yr adolygiadau hyn, rydym yn argymhell ystyried anghenion gwahanol gymunedau megis pobl anabl, ffoaduriaid, neu deuluoedd mwy. Efallai mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw sicrhau bod pobl o'r cymunedau hyn sydd â phrofiad byw o lety dros dro yn cymryd rhan yn y broses adolygu.

### Isafswm safonau llety dros dro

- 3.12 Mae Tai Pawb yn croesawu cryfhau'r mesurau ymarferol ynghylch addasrwydd llety dros dro. Rydym yn nodi ac yn cefnogi cynnwys dewisiadau iaith Gymraeg ymhlith y mesurau hyn. Yn yr ysbryd hwn, byddem yn eiriol dros gynnwys amgylcheddau diwylliannol ddigonol o fewn y safon ofynnol hon o lety gan gynnwys eu bod yn amlwg yn gyfeillgar i LHDTG+, yn wrth-hiliol ac yn deall niwroamrywiaeth. Bydd gwneud hynny nid yn unig yn darparu llety gwell ond hefyd yn atal risgiau o ddigartrefedd dro ar ôl tro, fel y nodwyd gan ein hymchwil ar [Lety Dros Dro yng Ngwent](#).



### Lleoliad y llety

- 3.13 Rydym yn cefnogi'r gwelliannau yn y Papur Gwyn ynghylch ystyriaethau ar gyfer awdurdodau tai lleol mewn perthynas â lleoliad y llety, gan gynnwys anghenion iechyd, cyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu, addysg ac agosrwydd cyflawnwyr honedig a dioddefwyr cam-drin domestig. Byddem yn argymhell cynnwys agosrwydd at fwyd sy'n ddiwylliannol briodol (h.y., Halal) a manau addoli. Gall gwneud hynny helpu i roi pobl mewn cymunedau lle mae ganddynt y cyfle gorau i integreiddio ac ailadeiladu eu bywydau.

### Digartrefedd Gartref

- 3.14 Rydym yn croesawu'r cynigion i ddatblygu cynllun Digartrefedd Gartref ar sail genedlaethol. Gall gwneud hynny helpu i gadw pobl mewn llety a allai fod yn fwy priodol am gyfnod byr o amser na llety dros dro sydd ar gael. Mae ein hymchwil wedi dangos y gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i bobl anabl (a phobl ifanc), er y gallai arwain at gynnydd yn nifer y bobl anabl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref. Mae hyn oherwydd bod ymchwil wedi dangos y gall digartrefedd cudd gael ei brofi'n aml gan bobl anabl nad ydynt yn gallu symud allan o lety hynod anaddas ac anhygyrch (e.e. tŷ rhieni) oherwydd diffyg llety hygyrch sydd ar gael. Felly bydd angen sicrhau bod data ar y niferoedd hyn yn cael ei fwydo i'r cyflenwad o lety priodol. Wrth sefydlu'r cynllun hwn, rydym yn teimlo y gall monitro data nodweddiad gwarchoddedig mewn achosion lle caiff ei gymhwyso (neu beidio) helpu i nodi unrhyw batrymau o duedd.

### Polisiau llety dros dro

- 3.15 Croesawn y cynigion i gyhoeddi canllawiau pellach ar bolisiau llety dros dro yn y dyfodol. Pan gynhelir yr adolygiad hwn, byddem yn dadlau eu bod yn cael eu cynllunio ar y cyd â phobl sydd naill ai mewn llety dro dro neu sydd â phrofiad ohono a'u bod yn cwmpasu ehangder nodweddiad pobl. Dylai polisiau hefyd fod yn destun [Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb](#), gan roi ystyriaeth benodol i LHDTC+, niwroamrywiaeth a gwrth-hiliaeth sy'n cynrychioli anghenion penodol y boblogaeth ddigartref.

### Addasrwydd llety ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

- 3.16 Rydym yn croesawu'r cynigion ar gyfer sicrhau bod safleoedd yn hytrach na llety brics a mortar yn cael eu hystyried fel y rhai mwyaf priodol ar gyfer ymgeisydd o'r cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, a'i bod yn ofynnol i gynghorau ofyn a gweithredu os mai dyma'r achos.
- 3.17 Bydd gweithredu'r newid hwn yn gosod gofynion ychwanegol ar awdurdodau lleol ac o bosibl gymdeithasau tai. Mae'n angenrheidiol bod y rhain yn cael **eu hariannu'n ddigonol**. Yn ogystal â chyllid, bydd angen rhoi ystyriaeth ehangach i sut y gellir dod

o hyd i'r safleoedd hyn. Bydd angen i hyn ystyried lefel yr angen, newid diwylliannol ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a gwelliannau i'r system gynllunio. O ystyried y diffyg dilyniant mewn camau gweithredu sy'n ymwneud â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru yn y maes gwaith hwn yn arbennig, dylid ystyried y newidiadau hyn yn flaenoriaeth. Mae ein hymgysylltiad ag Awdurdodau Lleol ar roi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru ar waith yn amlygu'r angen am gymorth i awdurdodau lleol sy'n bwriadu datblygu safleoedd a mesurau eraill. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru yn gryf i gynyddu capasiti ar gyfer cymorth o'r fath drwy ariannu gwasanaeth/sefydliad cyngori arbenigol a all gynorthwyo awdurdodau lleol.

- 3.18 Rydym yn argymhell bod ymchwil pellach yn cael ei wneud i sut y gall Cymru fodloni gofynion ei hanghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr a goresgyn rhwystrau i hyn.

#### Uchafswm yr opsiynau tai a dyletswydd rhoi terfyn ar ddigartrefedd terfynol - cyfryngu

- 3.19 Rydym yn cydnabod rôl gadarnhaol cyfryngu wrth atal digartrefedd ieuencid, gan effeithio ar yr unigolyn a'r straen cyffredinol ar lety dros dro. Fodd bynnag, fel y gwelir o'n [hymchwil](#) mewn perthynas â phobl ifanc o'r gymuned LHDTC+ – gall hyn fod yn heriol gan y gall cyfryngu weithiau roi unigolion yn ôl mewn perygl o gael eu cam-drin gan aelodau'r teulu. Rydym felly'n argymhell bod dulliau cyfryngu awdurdodau lleol yn cael eu llywio gan arfer da, gan ystyried anghenion y person ifanc.

#### Cofrestrau tai hygyrch

- 3.20 Rydym yn croesawu cynigion ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i bob awdurdod lleol gadw cofrestr tai hygyrch a chynnal adolygiad rheolaidd o'r llety hygyrch yn eu stoc. Fel yr amlygwyd gan ein hymchwil, gall diffyg gwybodaeth am eiddo ymestyn profiadau diangen o ddigartrefedd a/neu fyw mewn llety anniogel/anaddas.
- 3.21 Er mwyn sicrhau bod y cofrestrau hyn yn llwyddiannus, mae [arfer da](#) yn nodi bod angen cael diffiniad clir o'r hyn sy'n gwneud cofrestr tai hygyrch gan fod llawer o elfennau sy'n ffurfio cofrestr tai hygyrch. Yn syml, mae cael system baru neu gofrestr eiddo yn annigonol. Yn ogystal, mae ein hymgysylltu ag awdurdodau lleol yn amlygu dryswch ynghylch beth yw cofrestr tai hygyrch – gyda rhai awdurdodau lleol yn cyfeirio at 'restr o bobl ag anghenion tai hygyrch,' eraill yn cyfeirio at 'restr o eiddo a addaswyd' ac ati. Mae llawer mwy i redeg cofrestr/system tai hygyrch na'r uchod, boed yn system ar ei phen ei hun, neu'n system sydd wedi'i hymgorffori mewn cofrestr tai a dyraniad tai cyffredin ehangach. Mae Tai Pawb yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diffiniad o'r hyn sy'n gwneud Cofrestr Tai Hygyrch yn seiliedig ar ein hymchwil o [Went a gwaith arall](#). Unwaith y bydd wedi'i ddatblygu, rydym hefyd yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad a bod ALLau yn bodloni'r diffiniad.

3.22 Ymhellach, a heb fod yn gyfyngedig i ddiwygio digartrefedd, mae ymchwil Tai Pawb wedi datgelu profiadau lle mae pobl anabl wedi canfod bod y system dai yn rhy gymhleth i'w llywio a lle mae arferion a chanlyniadau'n amrywio. Yn flaenorol, rydym wedi galw am adolygiad o bolisiau dyrannu tai hygyrch ledled Cymru gyda golwg ar gyflwyno fframwaith safonol. Credwn y bydd angen y dull hwn i gefnogi'r ddeddfwriaeth hon.

#### Tynnu pobl oddi ar restrau aros

3.22 Rydym yn cydnabod y gallai fod ar awdurdodau lleol eisiau'r hyblygrwydd i dynnu pobl heb unrhyw angen am dai oddi ar y rhestr aros yn eu hardaloedd. Gallai gwneud hyn helpu i ostwng rhestrau aros a helpu i reoli'r broses ddyrannu yn well. Fodd bynnag, os caniateir y pŵer hwn, rydym yn argymhell bod data'n cael ei gadw ar y penderfyniadau a wneir i nodi unrhyw batrymau neu duedd wrth wneud penderfyniadau, a bod polisiau sy'n cefnogi'r broses hon yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA).

#### Mynd i'r afael â chymhellion gwrthnysig

3.23 Rydym yn cydnabod yr awydd i gael mecanweithiau sy'n rheoli'r rhestr aros a'r cyflenwad, yn enwedig gyda newidiadau yn cael eu gwneud i angen blaenoriaethol a bwriadoldeb. Mae'n siŵr y bydd awdurdodau lleol yn gweld mecanwaith "trin bwriadol" yn arf gwerthfawr. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o unrhyw "ganlyniadau anfwriadol" a'r potensial i effeithio'n negyddol ar rai cymunedau sydd wedi wynebu gwahaniaethu yn hanesyddol, neu wedi bod dan anfantais. Er mwyn sicrhau tegwch hyn, rydym yn argymhell bod y polisi hwn yn destun EIA a bod data cadarn yn cael ei gadw ar bobl sy'n methu'r prawf hwn i nodi unrhyw batrymau neu ragfarn wrth wneud penderfyniadau. Gall hyfforddiant ar ragfarn ddarwybod hefyd fod yn werthfawr i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Rydym yn argymhell ymhellach adolygiad blynyddol o benderfyniadau i fonitro'r defnydd o'r polisi hwn i sicrhau cysondeb ledled Cymru a dim rhagfarn yn erbyn pobl â nodweddion penodol. Os caiff ei nodi, bydd angen adolygu'r polisi hwn gyda golwg i'w ddileu.

#### Cyfathrebu ag ymgeiswyr

- 3.24 Mae Tai Pawb yn croesawu'r cynigion yn y Papur Gwyn i wella cyfathrebu hygyrch yn seiliedig ar ofynion unigolion, boed yn iaith, anabledd, neu niwroamrywiaeth. Wrth ddatblygu'r deunyddiau hyn, rydym yn argymhell bod pobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio ac adolygu unrhyw ddeunyddiau neu ddulliau cyfathrebu.
- 3.25 Argymhellwn ymhellach fod yr un ystyriaethau o ran [cyfathrebu](#) ar waith wrth ddatblygu cynlluniau tai personol.

- 3.26 Dylid canolbwyntio hefyd ar gefnogi staff i ddeall yn llawn anghenion cyfathrebu pobl a gweithredu arnynt. Ni fydd newid deunyddiau yn unig yn ddigon. I fod yn llwyddiannus, bydd angen canolbwyntio ar newid diwylliant a chynyddu ymwybyddiaeth, gan gynnwys buddsoddi mewn hyfforddiant gyda staff perthnasol.

#### Methiant i gydweithredu

- 3.27 Rydym yn cefnogi'r cynnig am brawf mwy cyfyng sy'n nodi nifer fach o seiliau cyfyngedig a diffiniedig clir dros y methiant afresymol i gydweithredu. Wrth ddatblygu'r prawf hwn, mae'n bwysig bod y polisi yn destun EIA i sicrhau nad yw'n gwahaniaethu. Dylid cadw data ar benderfyniadau hefyd gan sicrhau nad oes unrhyw batrymau na thuedd wrth wneud penderfyniadau. Efallai y bydd angen hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau hefyd.

#### Cynllunio rhyddhau

- 3.28 Rydym yn cefnogi'r cynigion ar gyfer gweithio agosach i atal rhyddhau i ddigartrefedd. Dylai'r polisi hwn hefyd ystyried sefyllfaoedd pan na fydd efallai'n ddiogel i berson ddychwelyd adref yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty.
- 3.29 Er mwyn cefnogi'r polisi hwn, bydd angen trefniadau gweithio agosach gydag ysbytai a byrddau iechyd, a bydd angen cynyddu'r cyllid i sicrhau bod adnoddau priodol yn eu lle i gyflawni hyn o safbwynt staffio a llety. Bydd angen i ran o'r llety hwn fod yn hygyrch i ddiwallu anghenion y rhai sy'n cael eu rhyddhau. Fe wnaeth ein [hymchwil yng Ngwent](#) (Adran 5.8.3) i ddyraniad tai hygyrch, ynghyd ag eraill ymgysylltedig â thimau rhyddhau o'r ysbyty a thimau opsiynau tai, amlygu'r angen am well trefniadau ar gyfer pobl anabl sy'n gadael ysbytai ac amlygu arfer da yn hyn o beth – byddem yn argymhell bod enghreifftiau o'r fath yn cael eu hailadrodd ledled Cymru.
- 3.30 Bydd angen ystyried beth sy'n digwydd mewn perthynas â rhyddhau pobl sy'n NRPF ac yn ddigartref. Gan fod pobl ag NRPF yn amddifad ac yn fwy tebygol o fod yn cysgu ar y stryd, bydd achosion o bobl yn gorfod mynd i'r ysbyty.

#### Hawliau unigol i gyngor, adolygiad, ac iawndal

- 3.30 Mae Tai Pawb yn llwyr gefnogi'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn. Er mwyn cynorthwyo'r gweithredu, byddem yn argymhell bod prosesau'n ddiwylliannol ymwybodol, yn gyson â newidiadau o ran cyfathrebu â phobl, a data'n cael ei gadw (a'i fonitro) ar benderfyniadau i nodi unrhyw batrymau neu ragfarn.

#### Data

- 3.31 Rydym yn cefnogi'r cynigion i wella prosesau casglu data parhaus ar draws y sector. Mae gwneud hyn yn hanfodol i helpu i ddatrys yr argyfwng tai a sicrhau bod gan

bawb gartref addas. Dylai'r set ddata hon bob amser gasglu gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig unigolion a dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob awdurdod perthnasol yn cydymffurfio â hyn. Amlygodd ein hymateb i'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd fylchau data mewn perthynas â chydraddoldeb, ac argymhellodd newidiadau penodol a datblygiadau data pellach (gan gynnwys y rhai gyda NRPF, Sipsiwn a Theithwyr, mudwyr, a phobl anabl). Mae data da yn sylfaen ar gyfer gallu asesu tegwch mynediad, profiad a chanlyniadau yn y system ddigartrefedd ar gyfer grwpiau poblogaeth amrywiol.

- 3.32 Wrth symud ymlaen, rydym yn argymhell bod y gwaith casglu data hwn yn cyd-fynd yn well â chyflenwad a chynllunio llety er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sy'n profi digartrefedd yng Nghymru.

#### Profiad Bywyd

- 3.33 Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wrando ac ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd, fel sy'n amlwg ym mhroses ymgynghori'r Papur Gwyn hwn a chynigion dilynol. Wrth gyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym yn awgrymu bod gweithredu'n ystyried sut y caiff amrywiaeth lawn y bobl sy'n profi digartrefedd yng Nghymru ei adlewyrchu.
- 3.34 Gall ymchwil profiad bywyd gymryd llawer o amser, i gyfranogwyr ac elusennau. Byddem felly'n annog bod y gwaith hwn yn derbyn adnoddau addas a bod digon o amser yn cael ei roi i sefydliadau a chyfranogwyr, i sicrhau nad yw'n tynnu oddi ar adnoddau eraill ac y gall gael yr effaith fwyaf wrth arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Credwn y dylid rhoi cydnabyddiaeth bob amser, boed yn ariannol ai peidio, pan fydd pobl yn cynnig eu hamser a'u profiadau. Wrth weithio gyda phobl sydd â phrofiad bywyd, mae Tai Pawb yn anelu at weithio ochr yn ochr ag [egwyddorion](#) penodol. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried dull tebyg wrth wneud y gwaith hwn.

#### **4. Casgliadau**

- 4.1 Mae Tai Pawb yn cydnabod maint y digartrefedd sydd yng Nghymru ar hyn o bryd a'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, elusennau, a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r cynigion a allai fod yn drawsnewidiol yn y Papur Gwyn hwn.
- 4.2 Gwyddom nad yw pawb yn wynebu'r un risg o ddigartrefedd, gyda grwpiau fel ffoaduriaid, pobl anabl, a LHDTC+ ifanc mewn mwy o berygl. Mae'n braf bod ystyriaethau wedi bod yn y Papur Gwyn ar gyfer y grwpiau hyn. Gan symud tuag at weithredu, mae'n hanfodol bod polisiau, gwasanaethau a chamau gweithredu yn y dyfodol yn parhau i fod yn amodol ar y ffocws cydraddoldeb hwn. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at wasanaethau digartrefedd yn parhau i fod yn anhyblyg i rai o'r bobl sydd eu hangen fwyaf. Bydd casglu data monitro priodol hefyd yn hanfodol i gyflawni hyn, ynghyd ag offer megis Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- 4.3 O ystyried yr heriau ariannol sy'n gysylltiedig â chyllideb bresennol Llywodraeth Cymru, rydym yn teimlo y gallai alinio'r Papur Gwyn hwn yn agosach â hawl i dai digonol hefyd gynnig mwy o gyfleoedd i ysgogi buddsoddiad, blaenoriaethu tai a darparu cynllun mwy cydgysylltiedig i ddatrys ein argyfwng tai.
- 4.4 Yn ychwanegol ar fater cyllid – a chan gydnabod ehangder a dyfnder y cynigion yn y Papur Gwyn – bydd y nod o roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru yn ddi-os yn gofyn am adnoddau sylweddol, parhaus. Mae partneriaid cyflawni fel awdurdodau lleol eisoes yn wynebu heriau cyllidebol digynsail. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod torri neu rewi rhai llinellau cyllidebol (e.e. Grant Cymorth Tai mewn cynigion drafft ar gyfer 2024/25). Hyd yn hyn, nid oes llawer o eglurder ynghylch pa gymorth refeniw parhaus sydd ar gael i helpu i roi'r Papur Gwyn ar waith ac i gyflawni ei nodau. Bydd angen yr eglurder hwnnw wrth symud ymlaen.
- 4.5. Effaith negyddol bosibl ar gydraddoldeb: os na all y cynigion dderbyn adnoddau priodol drwy gyllid a chynhwysedd ychwanegol sylweddol - byddem yn annog



promoting equality in housing  
hybu cydraddoldeb ym maes tai

Llywodraeth Cymru i fod yn ymwybodol o effaith negyddol anfwriadol bosibl y cynigion ar gydraddoldeb. Bydd y cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a darparwyr cymorth tai ddarparu ataliaeth, cyngor, cymorth a chefnogaeth i sylfaen cleientiaid llawer mwy. Mae gwneud hynny o fewn y cynhwysedd a'r adnoddau presennol mewn perygl o 'ledaenu'r gwasanaeth yn rhy denau' ar draws poblogaethau mawr a methu â darparu cymorth penodol a dwysach i grwpiau sy'n fwy agored i niwed, gan gynnwys ffoaduriaid, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl sy'n profi cam-drin domestig, pobl anabl, ac eraill.